# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Mai 2024

Amser: 09.01 - 09.40

# Remote / Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon (wedi'i diweddaru)

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.30pm

Gofynnodd Darren Millar pam roedd y *Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol* wedi cael ei ohirio o 21 Mai i 4 Mehefin. Cadarnhaodd y Trenfydd fod angen i'r Llywodraeth gymryd rhagor o amser i ystyried y mater yn dilyn diwedd y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ar ôl i gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ymddisywddo wedi iddi gael ei phenodi i rôl weinidogol, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai cadeiryddiaeth y pwyllgor hwnnw barhau i gael ei ddyrannu i'r grŵp Llafur.

Gofynnodd Darren Millar i nodyn gael ei ddosbarthu ynghylch y dyraniad presennol o ran cadeiryddiaeth pwyllgorau i grwpiau gwleidyddol. Cadarnhaodd Heledd Fychan fod Rhys ab Owen AS yn parhau i fod wedi ei wahardd o grŵp Plaid Cymru dros dro.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y byddai'r Llywydd yn gwahodd enwebiadau cyn Cwestiynau'r Prif Weinidog ac y byddai'r canlyniad, pe bai angen pleidlais gudd, yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y cyfarfod llawn heddiw.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

**Cytundeb Cydweithio**

Ar ôl derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Arweinydd Plaid Cymru ei bod wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, cadarnhaodd y Llywydd nad yw'r *Canllawiau ychwanegol ar weithrediad trafodion y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cytundeb Cydweithio* bellach yn berthnasol. Yn dilyn ymgynghoriad â Rheolwyr Busnes, cadarnhaodd y Llywydd hefyd:

- Bydd llefarwyr Plaid Cymru yn cael eu galw i ofyn tri chwestiwn yn ystod sesiynau cwestiynau llafar, i ddod i rym ar unwaith, gan ddechrau gyda chwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol y prynhawn yma.
- Ni fydd yn ofynnol bellach i Arweinydd Plaid Cymru a chyn-Aelodau Dynodedig gyfyngu ar y cwestiynau (a gyflwynir ac atodol) yn ystod sesiynau cwestiynau gweinidogol i faterion etholaethol neu ranbarthol, a gallant gyfrannu at ddatganiadau llafar gweinidogol yn yr un modd ag Aelodau eraill.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd cymhareb yr amser ar gyfer cynnal dadl wrthblaid a ddyrennir i Blaid Cymru yn cyfateb i nifer yr Aelodau yng ngrŵp Plaid Cymru ac na fydd bellach yn cael ei leihau i gymryd i ystyriaeth Arweinydd Plaid Cymru a nifer yr Aelodau Dynodedig.

**3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf (wedi'i diweddaru)**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**<u>Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024</u>**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol (45 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad (15 munud)~~ *-Gohiriwyd*

Holodd Heledd Fychan a oedd yn fwriad gan y Llywodraeth ychwanegu busnes pellach ar gyfer yr wythnosau i ddod. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'n rhoi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor Busnes o ran yr amserlen i ddod erbyn diwedd busnes dydd Mercher.

**3.3 Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf**

**3.4 NNDM8578 – Dyfodol gwaith dur Port Talbot**

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 5 Mehefin 2024 –**

- Dadl Fer: ~~Laura Anne Jones AS (Dwyrain De Cymru)~~ Altaf Hussain AS (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 19 Mehefin 2024 –**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn gofyn am gytundeb y Senedd i gyflwyno Bil Aelod – Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru) (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Rhys ab Owen AS (Canol De Cymru) (30 munud)

**NNDM8578 – Dyfodol gwaith dur Port Talbot**

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais pellach gan Luke Fletcher i drefnu dadl ar NNDM8578.

Datganodd Heledd Fychan fuddiant gan ei bod wedi cefnogi'r cynnig a mynegodd ei chefnogaeth dros drefnu dadl. Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif y Pwyllgor Busnes yn cytuno i drefnu dadl o ystyried y cytundeb a wnaed yn y cyfarfod blaenorol i drefnu datganiad llafar gan y Prif Weinidog ar yr un pwnc ar 14 Mai.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais i ymestyn y terfyn amser ar gyfer adrodd a chytunwyd ar derfyn amser newydd o 21 Mehefin ar gyfer yr holl Femoranda sy'n weddill ar y Bil Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais i ymestyn y terfyn amser ar gyfer Cynnig y Bil Tybaco a Fêps hyd at 26 Gorffennaf, yng ngoleuni'r anawsterau yr oedd y Pwyllgor wedi'u cael o ran sicrhau argaeledd gweinidogol ar gyfer craffu.

Ni wnaeth y Pwyllgor Busnes gytuno i ymestyn y terfyn amser oherwydd y potensial i'r Bil gwblhau'r broses ddeddfwriaethol yn San Steffan cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'n gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu i sicrhau y byddai ar gael i gymryd rhan mewn sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor yn yr amser hwnnw.

### 4.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ynghylch y Bil Deallusrwydd Artiffisial (Rheoleiddio)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y gall y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gwrdd naill ai ddydd Iau 23 Mai neu ddydd Gwener 24 Mai.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Y Broses Craffu ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol: Terfyn Amser ar gyfer Cyflwyno

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes at drafodaeth bellach o opsiynau i ganiatáu rhagor o amser rhwng terfynau amser cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol a thrafodion ar y gwelliannau hynny.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn unfrydol y dylid ystyried y materion hyn fel rhan o'r adolygiad llawn o'r broses graffu ddeddfwriaethol sydd wedi'i threfnu.

Cynigiodd Darren Millar a Heledd Fychan hefyd y dylid bwrw ymlaen â newid dros dro cyn yr adolygiad llawn i roi amser ychwanegol rhwng terfynau amser cyflwyno a thrafodion. Awgrymwyd ganddynt y byddai newid o'r fath yn gwella gwaith craffu ac ansawdd y dadleuon.

Dywedodd y Trefnydd na fyddai'r llywodraeth yn cefnogi unrhyw newidiadau dros dro a gaiff eu gwneud cyn yr adolygiad llawn, oherwydd pryderon am yr effaith y gallai ei chael ar allu'r Llywodraeth i baratoi gwelliannau a rheoli'r amserlen ddeddfwriaethol. Nododd hefyd fod y Llywodraeth yn gweithio'n agosach gydag Aelodau o'r tu allan i'r Llywodraeth yn ystod y camau diwygio.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y mater ymhellach y tu allan i'r Pwyllgor.